Adroddiad data gollyngiadau gorlifoedd storm 2025

Cyflwyniad

Dyma pedwerydd adroddiad blynyddol Cyfoeth Natural Cymru (CNC) ar ollyngiadau gorlifoedd storm. Cewch hyd i adroddiadau blaenorol ar gyfer 2022, 2023 a 2024 yma:

Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiadau data ar ollyngiadau gorlifoedd storm

Y ddau gwmni dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru yw Dŵr Cymru (DCWW) a Hafren Dyfrdwy (HD). Mae gan DCWW orlifoedd storm yn Lloegr hefyd, ond nid yw gollyngiadau o'r safleoedd hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat, DCWW a HD i gyflawni'r camau a nodwyd gan y Tasglu Ansawdd Afonydd Gwell, i gryfhau'r gwaith o reoli a rheoleiddio gorlifau, ac i ysgogi newid a gwelliannau cyflym.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynllun gweithredu gorlif stormydd y tasglu, rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn er mwyn rhannu data am ollyngiadau a ddarparwyd gan y cwmnïau dŵr ac a adolygwyd gennym ni. Rydym yn gwybod bod pobl ledled Cymru yn pryderu am nifer y gollyngiadau a'r effaith bosibl ar ein hafonydd a'n harfordiroedd. Ein nod yw gwella tryloywder, hysbysu'r cyhoedd a rhanddeiliaid, a llywio perfformiad gwell gan gwmnïau dŵr, drwy ein gwaith cydymffurfio a gorfodi.

Gweler cynlluniau gweithredu'r Tasglu ar wefan Llywodraeth Cymru

Dyfeisiau Monitro Hyd Digwyddiad

Mae dros 2,000 o orlifoedd storm a ganiateir ledled Cymru. Cynlluniwyd y systemau hyn i leddfu pwysau yn ystod cyfnodau o law trwm pan nad yw'r rhwydwaith carthffosydd yn gallu ymdopi. Mae angen trwydded gennym ni ar gyfer pob gorlif storm i ollwng yn gyfreithlon i'r amgylchedd. Mae'r trwyddedau yn cynnwys amodau i warchod afonydd, nentydd a dyfroedd arfordirol.

CNC oedd y rheoleiddiwr amgylcheddol cyntaf yn y DU i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr osod dyfeisiau monitro hyd digwyddiad (EDMs) ar bob gorlif storm, gan roi'r dull hwn ar waith yng Nghymru cyn i ofynion tebyg gael eu cyflwyno yn Lloegr. Mae'r dyfeisiau monitro hyn yn mesur pa mor aml y mae pob gorlif yn gollwng ac am ba mor hir. Roedd y mwyafrif o'r dyfeisiau monitro hyd digwyddiad wedi'u gosod erbyn 2020, a bellach mae dros 99% o'r gorlifoedd a ganiateir yn cael eu monitro. Mewn rhai achosion prin, rydym wedi cytuno nad oes angen dyfeisiau monitro hyd digwyddiad oherwydd cyfyngiadau technegol y safle. Mae

gan DCWW hefyd nifer fechan o ddyfeisiau monitro sydd eto i'w gosod.

Rhaid i gwmnïau dŵr gyflwyno data EDM inni bob blwyddyn erbyn diwedd mis Chwefror. Mae'r data hwn yn ein helpu i asesu cydymffurfiaeth a nodi meysydd i'w gwella. Maent hefyd yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar eu gwefannau.

Gweld tudalen we data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad DCWW

Gweld tudalen we data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad HD

Fel rhan o ymrwymiad y tasglu i fod yn dryloyw, lansiodd DCWW a HD fapiau gorlifoedd storm amser lled real yn 2025. Mae'r offer rhyngweithiol hyn yn defnyddio data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad i ddangos gweithgarwch cyfredol gorlifoedd. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth gyfredol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ansawdd dŵr yn eu hardal.

Gweld map gorlifoedd storm DCWW

Gweld map gorlifoedd storm HD

Ansawdd data

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyniadau data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad fod yn amserol ac yn gyflawn ac wedi'u hategu gan ddata cywir, cyson a dibynadwy. Mae data o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn sicrhau tryloywder, er mwyn cydymffurfio â rheoliadau ac er mwyn diogelu'r amgylchedd.

Yn dilyn cyflwyniad data DCWW yn 2025, nodwyd problemau o ran dilysu data, a arweiniodd at ailgyflwyno data wedi'i gywiro ar gyfer un safle – gwaith trin dŵr gwastraff Bae Abertawe, rhif trwydded BP0236601. Cytunwyd i dderbyn yr ailgyflwyniad y tro hwn er mwyn gweithio gyda'r wybodaeth fwyaf cywir, ond rydym wedi mynegi'n glir fod yn rhaid gwella eu prosesau ansawdd a dilysu data.

Rydym hefyd yn disgwyl i DCWW a HD wella eu perfformiad yn erbyn y targed amser gweithredu o 90% ar gyfer dyfeisiau monitro hyd digwyddiad, sef safon ddiwydiannol gytûn.

Yr hyn y mae data EDM yn ei ddweud wrthym

Mae data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad yn ein helpu i adnabod gorlifoedd storm sy'n gollwng yn rhy aml neu am gyfnodau estynedig. Mae hyn yn ein caniatáu i ganolbwyntio ar yr ardal lle mae'r risg amgylcheddol fwyaf a chymryd camau gweithredu lle bo angen.

Mae data'r dyfeisiau monitro hyd digwyddiad hefyd yn bwydo i mewn i'n gwaith adrodd blynyddol ar berfformiad amgylcheddol ar gyfer cwmnïau dŵr sydd ar gael yma:

Gweld adroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol DCWW

Gweld adroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol HD

Glawiad

Gan ddefnyddio dadansoddiad yn seiliedig ar gyfartaledd glawiad hirdymor yng Nghymru (1991-2020), roedd 2025 yn flwyddyn gyfartalog ar gyfer glawiad, h.y. o fewn y 60% canol. Cyfrifwyd hyn gan ddefnyddio cyfanswm y glawiad ledled Cymru o ddata y mae CNC yn ei dderbyn gan y Swyddfa Dywydd (HADUK).

Er gwaethaf haf sych, roedd cyfanswm y glawiad ar gyfer y flwyddyn yn dal i fod yn 97% o'r cyfartaledd hirdymor (1991 i 2020). Roedd mis Medi a mis Tachwedd yn llawer gwlypach na'r cyfartaledd, gan gofnodi 174% a 159% o'r cyfartaledd hirdymor yn y drefn honno.

Blwyddyn	Glawiad Cymru
2021	Blwyddyn gyfartalog
2022	Blwyddyn sych
2023	Blwyddyn wlyb
2024	Blwyddyn gyfartalog
2025	Blwyddyn gyfartalog

Canfyddiadau o'r data o 2025

Mae'r tablau isod yn dangos data cryno'r dyfeisiau monitro hyd digwyddiad o 2022 i 2025 ar gyfer gorlifoedd storm a ganiateir gydag amodau dyfeisiau monitro hyd digwyddiad, a gyflwynwyd gan DCWW a HD.

Penawdau EDM DCWW	2022	2023	2024	2025
Cyfanswm y gorlifoedd storm a restrir ar y datganiad blynyddol	1946	1982	2064	1972
Cyfanswm y gorlifoedd storm â EDM wedi'u comisiynu	1942	1975	2060	1967
% y gorlifoedd storm wedi'u rhestru â EDM wedi'i chomisiynu	99.8%	99.6%	99.8%	99.7%
Cyfanswm y gorlifoedd storm â data ar ollyngiadau	1886	1916	2051	1962
Nifer cyfartalog y gollyngiadau fesul gorlif storm â data gollyngiadau	40.9	55.3	48.9	44.2
Hyd cyfartalog (oriau) fesul digwyddiad gorlif a gafodd ei fonitro	7.1	8.6	8.2	8.1
% o orlifoedd storm lle cafwyd gollyngiadau 10 gwaith neu lai	34.6%	26.9%	28.4%	28.2%
% y gorlifoedd storm a restrir gyda EDM ar waith am o leiaf 90% o'r amser	84.9%	86.1%	86.5%	93.7%

- Cynyddodd nifer gorlifoedd storm a ganiateir DCWW o 1,946 yn 2022 i 1,972 yn 2025. Mae'r gostyngiad o 2024 i 2025 yn deillio'n bennaf o ildio trwyddedau, neu achosion lle cafodd gweithgareddau gollyngiadau storm eu cyfuno a mathau eraill o ollyngiadau. Mae hyn yn golygu bod gollyngiadau wedi cael eu hadrodd ddwywaith cyn hynny, gyda rhai gollyngiadau'n ymddangos ar y ffurflen ddwywaith.

- Mae dyfais monitro hyd digwyddiad bellach wedi'i gosod ar bron bob gorlif storm, gyda'r ffigur o amgylch 99.7% yn gyson. Rydym yn cysylltu â DCWW i sicrhau bod y nifer bach o osodiadau sy'n weddill yn cael eu cwblhau. Mae'r gostyngiad o 0.1% yn gysylltiedig â'r gostyngiad yn nifer yr achosion o orlifo, fel yr eglurwyd uchod.

- Mae'r gostyngiad bach yn nifer y gorlifoedd sy'n adrodd data gollyngiadau ers 2022 yn adlewyrchu newidiadau i'r rhestr asedau, megis gorlifoedd a ildiwyd neu a ailddosbarthwyd, yn hytrach nag unrhyw ostyngiad yn y cwmpas EDM.

- Cynyddodd gorlifoedd sydd â data ynghylch gollyngiadau o 1,886 yn 2022 i 1,962 yn 2025.

- Cyrhaeddodd y gollyngiadau cyfartalog fesul gorlif uchafbwynt o 55.3 yn 2023, gan ostwng i 44.2 yn 2025, sy'n dal yn uwch na lefelau 2022 (40.9).

- Cododd hyd y gollyngiadau o 7.1 awr yn 2022 i 8.1 yn 2025, ar ôl cyrraedd uchafbwynt o 8.6 yn 2023.

- Gollyngodd llai o orlifoedd ddeg gwaith neu lai yn 2025 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

- Gwelwyd gwelliant sylweddol yn amser gweithredu dyfeisiau monitro hyd digwyddiad, gyda 93.7% yn gweithredu o leiaf 90% o'r amser yn 2025, sef cynnydd o 84.9% yn 2022. Dros y blynyddoedd diweddar, rydym wedi cynnal disgwyliad clir y dylai pob monitor weithredu am o leiaf 90% o'r amser. Pan na chafodd y safon hon ei chyrraedd, cyhoeddwyd Adroddiadau Asesu Cydymffurfiaeth a oedd yn nodi diffyg cydymffurfio, gan fynnu bod ymchwiliad yn cael ei gynnal a chamau cywiro yn cael eu cymryd; rydym hefyd yn parhau i fonitro cynnydd a gweithredu gwelliannau.

Penawdau EDM HD	2022	2023	2024	2025
Cyfanswm y gorlifoedd storm a restrir ar y datganiad blynyddol	49	49	50	50
Cyfanswm y gorlifoedd storm â EDM wedi'u comisiynu	49	49	50	50
% y gorlifoedd storm wedi'u rhestru â EDM wedi'i chomisiynu	100%	100%	100%	100%
Cyfanswm y gorlifoedd storm â data ar ollyngiadau	49	49	50	50
Nifer cyfartalog y gollyngiadau fesul gorlif storm â data gollyngiadau	29.0	38.8	36.2	21.7
Hyd cyfartalog (oriau) fesul digwyddiad gorlif a gafodd ei fonitro	7.5	8.5	9.4	7.8
% o orlifoedd storm lle cafwyd gollyngiadau 10 gwaith neu lai	36.7%	22.4%	22.0%	36%
% y gorlifoedd storm a restrir gyda EDM ar waith am o leiaf 90% o'r amser	73.5%	83.7%	80.0%	98%

- Parhaodd nifer gorlifoedd storm a ganiateir HD yn sefydlog.
- Mae dyfeisiau monitro hyd digwyddiad ar waith ym mhob gorlif storm, gan gynnal cwmpas o 100% dros y pedair blynedd.
- Gostyngodd gollyngiadau cyfartalog fesul gorlif o 29.0 yn 2022 i 21.7 yn 2025.
- Cododd hyd cyfartalog pob gollyngiad yn gyson o 7.5 awr yn 2022 i 9.4 awr yn 2024 ac yna gostwng i 7.8 awr yn 2025.
- Cynnydd mewn gorlifoedd a ollyngodd 10 gwaith neu lai yn 2025 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Gwelwyd gwelliant sylweddol yn amser gweithredu dyfeisiau monitro hyd digwyddiad, o 73.5% yn gweithredu o leiaf 90% o'r amser yn 2022, i 98% yn 2025, Cyflwynwyd Adroddiadau Asesu Cydymffurfiaeth i'r ychydig safleoedd a oedd yn is na 90%, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal ymchwiliadau a chymryd camau unioni, ac rydym yn monitro'u cynnydd ar hyn o bryd.

Edrychom hefyd ar ba mor aml yr oedd gorlifoedd storm a ganiateir ar gyfer DCWW a HD yn gollwng gyda'i gilydd. Mae'r data'n dangos:

Canran y gorlifoedd storm a ganiateir yng Nghymru a ollyngodd:	2022	2023	2024	2025
0 gwaith	12% (247)	8% (162)	7% (156)	8% (153)
rhwng 1 a 9 gwaith	21% (416)	18% (371)	19% (409)	19% (391)
rhwng 10 a 39 gwaith	26% (517)	25% (503)	28% (587)	29% (592)
rhwng 40 a 99 gwaith	27% (538)	27% (540)	30% (639)	32% (660)
rhwng 100 a 299 o weithiau	10% (202)	19% (382)	15% (308)	11% (216)
Mwy na 300 o weithiau	Llai na 1% (5)	Llai na 1% (8)	Llai na 1% (2)	Llai na 1% (3)
Anhysbys – ni ddarparwyd data	4% (70)	3% (65)	1% (19)	1% (18)

- Yn 2025, gostyngodd nifer y gorlifoedd storm nad oeddent yn cofnodi unrhyw ollyngiadau, tra cynyddodd y nifer a oedd yn cofnodi rhwng 10 a 99 o ollyngiadau. Yn galonogol, gostyngodd y nifer a oedd yn cofnodi mwy na 100 o ollyngiadau.

- Er bod cyfanswm y glawiad wedi amrywio rhwng 2022 a 2025, mae cyfreithlondeb gorlif storm yn dibynnu ar ddwyster a hyd digwyddiadau glaw unigol yn nalgylch y gorlif storm, nid cyfanswm y glawiad yn unig.

Ein camau rheoleiddiol ar orlifoedd storm

Rydym yn cymryd camau cadarn wedi'u targedu i reoleiddio gorlifoedd storm a lleihau eu heffaith ar afonydd ac arfordiroedd Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2026, cyflwynom ganllawiau wedi'u diweddaru i gwmnïau dŵr ar sut i ddosbarthu gorlifoedd storm a sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol. Gwnaethon hefyd gyhoeddi canllawiau ar y camau y dylai cwmni dŵr eu cymryd pan nad oes gan orlif storm drwydded amgylcheddol. Rydym wedi tynhau'r diffiniad o ollyngiadau dilys, ac mae cwmnïau dŵr yn datblygu dulliau sy'n defnyddio data glaw a data EDM i ganfod achosion posibl o fethu â chydymffurfio. Byddwn yn adolygu ac yn archwilio'r dulliau hyn i sicrhau eu bod yn bodloni ein disgwyliadau rheoleiddiol.

Yn seiliedig ar hyn, mae Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy yn cynnal asesiadau o 2025 i 2030 er mwyn helpu i flaenoriaethu gwelliannau.

Rhwng 2025 a 2030, disgwylir i DCWW gyflwyno gwelliant o 30% i orlifoedd storm, drwy

gymorth lwfans gwariant o £1.1 biliwn. Mae'n blaenoriaethu'r gorlifoedd sy'n achosi'r niwed mwyaf i'r amgylchedd a'r rhai sydd â'r nifer uchaf o ollyngiadau.

Dros yr un cyfnod, disgwylir i HD gyflawni gostyngiad o 55% mewn gollyngiadau o orlifoedd storm, o gymharu â'i berfformiad yn 2023-24 gyda chefnogaeth rhaglen fuddsoddi gwerth £11 miliwn.

Mae CNC yn cryfhau ein dull rheoleiddio ein hunain, gan ganolbwyntio ar ymyriadau uchel eu heffaith. Mae ein blaenoriaethau'n cynnwys:

- **Canllawiau cryfach**

  Rydym wedi egluro diffiniadau allweddol, fel beth sy'n cyfrif fel "digwyddiad glaw trwm" neu "ollyngiad diwrnod sych" er mwyn tynhau rheolaethau rheoleiddiol a chefnogi ymdrechion gorfodi.

- **Mwy o wiriadau cydymffurfiaeth**

  Rydym yn cynyddu ein gweithgarwch rheoleiddio yn flynyddol ar draws pob trwydded rhyddhau dŵr, gan ganolbwyntio ar safleoedd sy'n peri'r risg fwyaf i'r amgylchedd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain i raddau helaeth gan Dîm Cydymffurfio â Rheoliadau Dŵr newydd a sefydlwyd yn 2025. Mae'r tîm yn gweithredu fel swyddogaeth genedlaethol i sicrhau dull cyson o asesu cydymffurfio â rheoliadau gollwng dŵr, rheoli data, a gwneud penderfyniadau rheoleiddiol ledled Cymru.

- **Archwilio gwell**

  Yn 2026, byddwn yn cynnal archwiliadau o Asesiadau Monitro Gweithredwyr ac yn ffurfioli ein dull o archwilio'r modd y mae cwmnïau dŵr yn rheoli ac yn adrodd ar ddata dyfeisiau monitro hyd digwyddiad. Mae'r archwiliadau hyn yn gwerthuso'r systemau rheoli, y prosesau a'r rheolaethau sy'n cefnogi monitro gollyngiadau dŵr, gan helpu i wella hyder bod data gollyngiadau yn gywir, yn ddibynadwy ac yn cael ei adrodd yn gyson.

- **Dadansoddi data yn well**

  Rydym yn gwella ein hoffer i wirio cywirdeb a chyflawnrwydd ffurflenni rheoleiddio, gan ein helpu i weithredu ar y data yn fwy effeithiol.

- **Addysg gyhoeddus**

  Mae cyfathrebu ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch camddefnyddio carthffosydd a draeniau sydd wedi'u cysylltu'n anghywir, a'r hyn y gall y cyhoedd ei wneud i helpu yn hanfodol.

- **Metrigau perfformiad newydd**

  O 2026 ymlaen, bydd metrigau newydd ar gyfer Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (EPA) yn cryfhau'r craffu ar ddata EDM ymhellach. Datblygwyd y metrigau ar y cyd ag Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd, a'u nod yw sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyflawni amser gweithredu o 90% ar draws pob dyfais monitro hyd digwyddiad.

- **Deddfwriaeth newydd**

Mae Deddf Dŵr (Mesurau Arbennig) 2025, a basiwyd ym mis Chwefror 2025, yn cyflwyno pwerau gorfodi cryfach, gan gynnwys cosbau sifil ac awtomatig newydd ar gyfer troseddau penodol gan gwmnïau dŵr. Wrth i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei gweithredu, gallai methiannau sy'n ymwneud â monitro ac adrodd ar orlifoedd stormydd fod yn destun sancsiynau rheoleiddiol llymach. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid rheoleiddiol a llywodraethol i gefnogi datblygiad y trefniadau newydd, ac i sicrhau y gellir eu cymhwyso'n effeithiol yng Nghymru.